**TUDALEN 25**

Cofnodion cyfarfod Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy gyfrwng fideo-gynadledda Zoom ar **6 Mawrth 2023** am 7.10 pm.

**PRESENNOL:-** Cyng. Gwynant Roberts (Maer), Cyng. Elin Walker Jones (Dirprwy Faer), Cyng. Salamatu Fada, Cyng. Medwyn Hughes, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Eirian Williams Roberts, Cyng. Gareth Roberts, Cyng. Mark Roberts, Cyng. Nigel Pickavance , Cyng. John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig), Llinos Fôn Jones (Dirprwy Gyfarwyddwr Dinesig) Howard Huws (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion).

**99/22 YMDDIHEURIADAU:** Cyng. Dylan Fernley, y Cyng. Huw Wyn Jones

**100/22 DATGANIAD O DDIDDORDEB ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Datganodd Cyng. Meic Pattison, fel Cadeirydd Menter Iaith Bangor ddiddordeb yn eitem 107/22 Grant Dydd Gŵyl Dewi.

**101/22 CYFRANOGIAD CYHOEDDUS**

Dim.

**102/22 ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig, fod misoedd Ionawr a Chwefror, yn groes i’r disgwyl, wedi bod yn ddau fis prysur iawn. Roedd y prif bwyntiau fel a ganlyn:

- Mae Cyngor Gwynedd wedi dechrau gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym maes parcio Sgwâr Kyffin ac wedi gofyn am syniadau am lefydd eraill.
- Mae’r rhaglen *Prosiect Pum Mil* yn dod i ffilmio yn Hafan. Gofynnir am wirfoddolwyr i helpu i beintio a thacluso'r lle.
- Mae prosiect ar y gweill i newid yr hen giosgau yn fannau gwefru ffonau symudol a darpariaeth wi-fi lleol.
- Mae’r Cyfarwyddwr Dinesig wedi ysgrifennu llythyr o gefnogaeth i Brifysgol Bangor yn eu cais i osod 5G yng nghanol dinas Bangor.
- Mae BID Bangor yn gweithio ar gais trefi SMART ar gyfer Bangor.
- Mae’r Gadeirlan wedi sefydlu grŵp o’r enw *Llefa’r Cerrig* – bydd Y Cyfarwyddwr Dinesig yn eistedd ar y grŵp hwn.
- Mae Cyngor Gwynedd a'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio ar gael gwared ar graffiti.
- Gwahoddwyd Y Cyfarwyddwr Dinesig adrodd i grŵp cymunedol y Brifysgol.
- Mae’r Cyfarwyddwr Dinesig yn edrych ar botensial a chyflwr adeiladau ar y Stryd Fawr.
- Mae Cyngor y Ddinas yn gweithio'n agosach o lawer gyda Chyngor Gwynedd – ystyried biniau, graffiti ayb ym Mangor Uchaf. Hefyd torri gwair a llwybrau cyhoeddus.
- Gwnaed mynegiant o ddiddordeb i Trawsnewid Trefi. Cais newydd o dan y gronfa Ffyniant Gyffredin. Y broblem yw mai dim ond ychydig iawn o amser yn aml a roddir i baratoi cais. Awgrymodd Y Cyfarwyddwr Dinesig baratoi 4-6 o brosiectau a fyddai’n helpu Bangor a gwneud llawer o’r gwaith ymlaen llaw, yn barod ar gyfer yr alwad am geisiadau.

**TUDALEN 26**

- Prif Gynllun Gwynedd ar gyfer Bangor – mae cyfle i drefnu gweithdy arall i'r Cyngor, ond un mwy penodol, o bosibl yn edrych ar hunaniaeth Bangor Werdd.
- Roedd Y Cyfarwyddwr Dinesig wedi cael cyfarfodydd cadarnhaol iawn gyda Chwmni Bro Ffestiniog a Phartneriaeth Ogwen ac roedd lle i gydweithio. Roedd gan Bartneriaeth Ogwen yn arbennig arbenigedd mewn bysiau cymunedol trydan ac ati.
- Cynhaliwyd cyfarfod o'r is-grŵp i drafod ymweliad Soest ym mis Hydref.
- Roedd Y Cyfarwyddwr Dinesig wedi trefnu cyfarfod gyda Chlerc Tref Caernarfon i drafod materion cyffredin.
- Roedd wedi cael cyfarfod gyda Siân Gwenllian AoS, a'r prif bwyntiau oedd ardrethi busnes a'r Hyb meddygol.
- Byddai'r seremoni i roi Rhyddfraint Dinas Bangor yn cael ei chynnal ar 27 Mawrth, ac mae gwahoddiad i bob Cynghorydd.
- Mae system TG newydd wedi'i hystyried, i gynnwys cyfarfodydd Zoom. Byddai hyn yn gost sylweddol i'r Cyngor.
- Mewn 2 flynedd, bydd Cadeirlan Bangor yn 1500 oed, felly bydd Bangor yn 1500 hefyd. Mae'n bryd dechrau meddwl sut i nodi'r garreg filltir hon.
- Bellach mae 2 sedd wag ar y Cyngor (Hendre a Marchog ), mae 2 o bobl wedi datgan diddordeb a bydd hyn yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y Maer i'r Cyfarwyddwr Dinesig am ei adroddiad cynhwysfawr a'i waith caled. Trafodwyd rhai pwyntiau:

- Roedd cefnogaeth i osod diffibrilwyr mewn hen giosgau. Mae angen mwy o wybodaeth am sut mae'r rhain yn cael eu defnyddio, a sut mae eu defnydd yn cael ei gofnodi.
- 5G - os caiff hwn ei osod, a fyddai hyn yn golygu signal 3G yn dod i ben.

**103/22 STRWYTHUR Y CYNGOR**

i) Cyfarfodydd ffurfiol

Yn draddodiadol, bob 3 mis cynhelir cyfarfod o'r Cyngor llawn gydag aelodau'r Cyngor a swyddogion yn gwisgo regalia llawn. Wrth i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ddychwelyd, mae'r awydd i wisgo clogau ffurfiol wedi lleihau. Fodd bynnag, amodir hyn yn y Rheolau Sefydlog.

**PENDERFYNWYD** cyfyngu gwisgo'r clogau ffurfiol i gyfarfodydd pwysig yn unig, e.e. y Cyfarfod Blynyddol, Sul y Cofio, seremoni Rhyddfraint y Ddinas, a diwygio'r Rheolau Sefydlog yn unol â hynny.

**PENDERFYNWYD** hefyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol ym mhob cyfarfod pwyllgor, nid gyda'i gilydd yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor yn unig.

ii) Ceisiadau Cynllunio

Fel arfer, mae ceisiadau cynllunio yn cael eu dosbarthu i Aelodau a dim ond yn dod gerbron y Cyngor os ydynt yn geisiadau strategol mawr. Fodd bynnag, teimlai'r Aelodau nad oedd negeseuon yn mynd yn ôl i Gyngor Gwynedd fel ymateb ffurfiol gan Gyngor Dinas Bangor. **PENDERFYNWYD** ychwanegu ceisiadau cynllunio at y cyfarfodydd misol, boed yn rhai Cyngor llawn ai peidio.

iii) Pwyllgor Staffio

**TUDALEN 28**
Roedd pwyllgor staffio wedi'i gynnull y flwyddyn gynt i ymdrin â phenodi Cyfarwyddwr i'r Ddinas. Cynigiwyd sefydlu pwyllgor staffio parhaol.
**PENDERFYNWYD** cadw strwythur y pwyllgor blaenorol a phenodi dau Gynghorydd ychwanegol, sef Cynghorwyr Fada (parhaol) a Roberts (dros dro).

**104/22 PROSIECT ARWYDDION – MAP OPSIYNAU**
Roedd opsiynau ar gyfer arddull a lliwiau mapiau ar fyrddau gwybodaeth yn y Stryd Fawr wedi'u dosbarthu cyn y cyfarfod. Mynegwyd pryderon am addasrwydd rhai lliwiau i bobl ag anawsterau gweledol.
**PENDERFYNWYD** gofyn i Gyfarwyddwr y Ddinas geisio cyngor arbenigol.

**105/22 TRAFOD GWAHODDIAD I EFEILLIO Â THREF YN FFRAINC**
Roedd tref ger Paris wedi cysylltu i ofyn am ystyried gefeillio â Bangor, ac roedd hwn wedi'i drafod gan yr is-grŵp gefeillio. Teimlent fod y gwahoddiad yn anaddas gan nad oedd gan y dref lawer yn gyffredin â Bangor.
Roedd teimlad fod y prosiect Bangor o amgylch y byd yn fwy addas; hefyd y gellid ystyried gwneud cysylltiadau â llefydd yn y gwledydd Celtaidd eraill.
**PENDERFYNWYD** gwrthod y gwahoddiad gan Ffrainc ond ymchwilio ymhellach i'r posibiliadau eraill.

**106/22 TRAFOD AILGYLCHU**
Roedd teimlad y gellid gwella lefelau ailgylchu yn y Ddinas. Hefyd, codwyd pryderon am y problemau sbwriel mewn rhai rhannau o Fangor.
**PENDERFYNWYD** sefydlu is-bwyllgor o aelodau'r Pwyllgor Asedau, Prosiectau ac Adnoddau i weithio ar y syniadau hyn. Penodwyd y Cynghorwyr canlynol: Cyng. Fada, Hughes, Parry, Pattison, Pickavance, Williams Roberts.

**107/22 GRANT DYDD GWYL DEWI**
Adroddwyd bod Parêd Dydd Gŵyl Dewi a gweithgareddau eraill wedi bod yn llwyddiant mawr. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo grant o £3,000.

**108/22 CYMERADWYO CYNIGION CORONI'R BRENIN**
Roedd Y Cyfarwyddwr Dinesig wedi cael y dasg o ddarganfod sut roedd Cynghorau Tref a Chymuned eraill yn yr ardal yn dathlu'r Coroni. Ychydig iawn oedd wedi cynllunio gweithgareddau, roedd rhai yn rhoi grantiau i fentrau lleol. Roedd y Pier ym Mangor yn cynnal ei ddathliad pen-blwydd ei hun ychydig ddyddiau'n ddiweddarach felly **PENDERFYNWYD** cyfrannu arian ac adnoddau i'r digwyddiad hwn yn lle hynny.

**109/22 CYMERADWYO TALIADAU**
CYMERADWYWYD y rhestr daliadau.

**Daeth y cyfarfod i ben am 9.25pm**
CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR